

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU

# Ein Hadroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant ar gyfer 2022/23

# Cyflwyniad

**Sefydlwyd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn 1974 a heddiw rydym yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig llwyddiannus sy'n cael ein rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau i 2,700 a mwy o aelwydydd ar draws Gogledd Cymru.**

Er ein bod bob amser wedi cydnabod ein cyfrifoldebau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant a'u bod wedi bod yn ganolog ym mhopeth a wnawn, dim ond yn ddiweddar yr ydym wedi mabwysiadu'r Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd (SRS) ac eleni yw'r flwyddyn gyntaf i ni adrodd ar ein perfformiad yn erbyn pob un o'r 48 maen prawf yn y safonau, sydd wedi'u crynhoi yn 12 thema o dan y 3 maes Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant.

## Cymdeithasol

Rydym yn llwyr ddeall gwerth a phwysigrwydd cartref da, a cheisiwn wneud cyfraniad cadarnhaol i'n cymunedau lleol drwy barhau i weithio tuag at ein gweledigaeth gorfforaethol – Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, trwy ddarparu cartrefi i fod yn falch ohonynt a chreu cymunedau lle gallant ffynnu. Rydym yn malio am ein cymunedau ac rydym eisiau eu gweld yn llwyddo.

Mae ein cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24 yn cyflwyno ein huchelgais a'n dyheadau a'n bwriadau ar gyfer ein cwsmeriaid, pobl, ein cartrefi a'n harian. Ein nod yw cael effaith gadarnhaol arwyddocaol yng Ngogledd Cymru, a'r canlyniadau a ddymunir yn y Cynllun Corfforaethol hwn yw sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn nhermau ei tharged ar gyfer cartrefi newydd, y targed dim troi allan a saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chanolbwyntio ein gweithgareddau er mwyn cyfrannu at y nodau cyffredin hyn.

## Amgylcheddol

Mae datblygiad yn elfen greiddiol o'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Wrth i ni adeiladu cartrefi mwy fforddiadwy, byddwn yn ehangu ein defnydd o ddulliau adeiladu er mwyn creu datblygiadau sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac sy'n gynaliadwy.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddatblygu strategaeth Gynaliadwyedd sy'n disgrifio sut yr ydym yn bwriadu gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein dull gweithredu at gynaliadwyedd a sicrhau ein bod yn datblygu ein busnes mewn ffordd gynaliadwy. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith datgarboneiddio a fydd yn arwain at gartrefi mwy ynni effeithlon ar gyfer ein preswylwyr a fydd hefyd yn golygu biliau ynni is.

## Llywodraethiant

Mae'r Rheoleiddiwr (Llywodraeth Cymru) yn cyhoeddi Dyfarniadau Rheoleiddiol ar gyfer Llywodraethiant a Gwasanaethau Tenantiaid a Hyfywedd Ariannol. Cyhoeddwyd ein Dyfarniad Rheoleiddiol diwethaf gan Lywodraeth Cymru ar 6ed Ionawr 2023. Rydym yn falch o gyhoeddi y cadarnhawyd ei fod yn "Cydymffurfio" ar gyfer Llywodraethiant a Gwasanaethau Tenantiaid a Hyfywedd Ariannol, sef y canlyniad uchaf posibl. Mae'r ddwy dudalen ganlynol yn dangos pob un o'r 12 thema yr ydym yn adrodd yn eu herbyn:

| Ardal ESG | Thema | Enw Thema | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| Cymdeithasol | T1 | Fforddiadwyedd a Diogelwch | Mae'r thema hon yn ceisio asesu i ba raddau y mae'r darparwyr tai yn darparu cartrefi hirdymor sy'n wirioneddol fforddiadwy i'r rhai ar incwm isel. Mae'r thema'n cynnwys pum maen prawf gan gynnwys cymysgedd deiliadaeth eiddo newydd a phresennol, sicrwydd deiliadaeth a thlodi tanwydd. |
| | T2 | Diogelwch ac Ansawdd Adeiladau | Mae'r thema hon yn ceisio asesu pa mor effeithiol y mae'r darparwr tai yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol i ddiogelu preswylwyr a chadw adeiladau yn ddiogel. Mae'r thema yn cynnwys tri maen prawf, datgelu gwiriadau diogelwch nwy, asesiadau risg tân a chyflawni'r Safon Tai Gweddus. |
| | T3 | Llais y Preswylwyr | Mae'r thema hon yn ceisio asesu pa mor effeithiol y mae'r darparwr tai yn gwrando ar breswylwyr a'u grymuso. Mae'r thema yn cynnwys tair thema sy'n cwmpasu craffu ar y bwrdd, delio â chwynion a boddhad preswylwyr. |
| | T4 | Cymorth i Breswylwyr | Mae'r thema hon yn ceisio asesu effeithiolrwydd y mentrau sy'n cael eu cynnal gan y darparwr tai i gefnogi preswylwyr unigol. Mae'r thema yn cynnwys dau faen prawf sy'n cwmpasu: Pa gymorth sy'n cael ei ddarparu a pha mor llwyddiannus yw'r cymorth hwn? |
| | T5 | Creu lleoedd | Mae'r thema hon yn ceisio amlygu cyfres ehangach o weithgareddau y mae darparwyr yn ymgymryd â hwy i greu cartrefi sydd wedi'u cynllunio'n dda a lleoedd sy'n cyflawni anghenion lleol ac sy'n darparu lleoedd gwych i bobl fyw ynddynt a'u mwynhau. Mae'r thema hon yn cynnwys un maen prawf, gofod i'r darparwr tai roi enghreifftiau o'u gwaith creu lle neu lunio lle. |
| Amgylcheddol | T6 | Newid Hinsawdd | Mae'r thema hon yn ceisio asesu sut mae gweithgareddau'r darparwr tai yn effeithio ar y newid hinsawdd, a sut maent yn lliniaru risgiau ffisegol newid hinsawdd. Mae'r thema hon yn ystyried arfer presennol, yn ogystal â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r thema yn cynnwys chwe maen prawf, gan gynnwys dosbarthiad sgorau ACLl, data allyriadau, cynllun lliniaru risg hinsawdd a strategaeth amgylcheddol. |
| | T7 | Ecoleg | Mae'r thema hon yn ceisio asesu sut mae'r darparwr tai yn diogelu'r amgylchedd a'r ecoleg leol. Mae'r thema yn cynnwys dau faen prawf ar reoli llygryddion a chynyddu bioamrywiaeth. |
| | T8 | Rheoli Adnoddau | Mae'r thema hon yn ceisio nodi'r graddau y mae gan y darparwr tai agwedd gynaliadwy tuag at ddeunyddiau, wrth adeiladu a rheoli eiddo. Mae'r thema yn cynnwys tair thema sy'n cwmpasu cyrchu deunyddiau, rheoli dŵr a rheoli gwastraff. |
| Llywodraethiant | T9 | Strwythur a Llywodraethiant | Mae'r thema hon yn ceisio asesu strwythur a dull gweithredu cyffredinol y darparwr tai at Lywodraethiant. Mae'r thema yn cynnwys chwe maen prawf sy'n cwmpasu'r rheoleiddiwr, y cod llywodraethiant, rheoli risg a pherchnogaeth. |
| | T10 | Y Bwrdd a'r Ymddiriedolwyr | Mae'r thema hon yn ceisio asesu ansawdd, addasrwydd a pherfformiad y bwrdd a'r ymddiriedolwyr. Mae'r thema yn cynnwys un ar ddeg o feini prawf gan gynnwys demograffeg y bwrdd a phrofiad ac annibyniaeth y bwrdd. |
| | T11 | Llesiant Staff | Mae'r thema hon yn ceisio asesu sut y mae staff yn cael eu cefnogi ac i ba raddau y rhoddir ystyriaeth i'w llesiant. Mae'r thema yn cynnwys pum maen prawf gan gynnwys gwybodaeth am gyflogau, cymorth ychwanegol i staff a dyddiau salwch cyfartalog. |
| | T12 | Y Gadwyn Gyflenwi | Mae'r thema hon yn ceisio asesu a yw'r darparwr tai yn caffael yn gyfrifol. Mae'r thema yn cynnwys dau faen prawf sy'n asesu sut mae gwerth cymdeithasol ac effaith amgylcheddol yn cael eu hystyried. |

# Cymdeithasol

## T1 – Fforddiadwyedd a Diogelwch

### C1 – Ar gyfer eiddo sy'n ddarostyngedig i'r system rheoleiddio rhent, adrodd yn erbyn un neu fwy o'r Metrigau Fforddiadwyedd.

Yn 2021/22 fe wnaethom greu polisi rhent fforddiadwy sy'n ystyried amgylchiadau ac incwm ein preswylwyr. Crëwyd meincnod ar gyfer pob rhent yn seiliedig ar argymhellion rhent fforddiadwy Sefydliad Joseph Rowntree. Ein nod yw gwneud yn siŵr lle bynnag y bo'n bosibl bod ein rhenti wedi'u pennu o fewn 28% o incwm preswylydd gyda rhenti yn unig a 33% o incwm preswylwyr gyda Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth.

Pasiodd pob un o'n rhenti a thaliadau gwasanaeth ein maen prawf fforddiadwyedd ar gyfer 2022/23.

Defnyddir cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LTLl) i gyfrifo'r swm o fudd-daliadau y gellir ei dalu i denantiaid i dalu eu costau tai. Mae Tai Gogledd Cymru mewn 5 ardal awdurdod lleol. Mae Ynys Môn a Gwynedd yn defnyddio cyfraddau LTLl Gogledd-orllewin Cymru, mae Conwy a Sir Ddinbych yn defnyddio cyfraddau LTLl Gogledd Clwyd ac mae Wrecsam yn defnyddio cyfraddau ardal marchnad rentu eang LTLl Wrecsam. Er mwyn gallu cymharu'r LTLl mewn ffordd sy'n fwy ystyrlon, darperir dadansoddiad ar wahân ar gyfer y tair ardal marchnad rhentu LTLl.

| Nifer yr Ystafelloedd Gwely | Rhent Cyfartalog a Godwyd fel % LTLl yng Ngogledd Clwyd | Rhent Cyfartalog a Godwyd fel % LTLl yng Ngogledd-orllewin Cymru | Rhent Cyfartalog a Godwyd fel % LTLl yn ardal marchnad rentu eang Wrecsam |
|---|---|---|---|
| 1-ystafell wely | 103% | 102% | 93% |
| 2-ystafell wely | 82% | 89% | 90% |
| 3-ystafell wely | 80% | 85% | N/A |
| 4-ystafell wely | 72% | 77% | N/A |

Rydym yn ymgynghori â'n preswylwyr yn flynyddol ynghylch fforddiadwyedd eu rhent a thaliadau gwasanaeth.

Datgelodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn fod y mwyafrif o'n preswylwyr yn credu bod ein rhenti a'n taliadau gwasanaeth yn fforddiadwy. Mae ein rhenti hefyd ymhlith yr isaf yng Ngogledd Cymru.

# Cymdeithasol

NORTH WALES HOUSING
TAI GOGLEDD CYMRU

## C2 – Y gyfran, a'r nifer o gartrefi presennol (rydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli) a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i dyrannu i anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol), rhent canolraddol, rhent fforddiadwy, Tai â chymorth, tai ar gyfer pobl hŷn, perchentyaeth cost isel, cartrefi gofal, y Sector Rhentu Preifat neu arall:

Ein prif ffocws o hyd yw darparu cartrefi fforddiadwy i breswylwyr na fyddent yn gallu fforddio rhenti nad ydynt yn gymdeithasol a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae 87% o gyfanswm ein stoc wedi'i ddyrannu ar y sail hon fel y dangosir yn y tabl isod:

| Deiliadaeth/Math o Eiddo | Y nifer o gartrefi a ddyrannwyd ar 31 Mawrth 2023 | % o gartrefi |
|---|---|---|
| Anghenion Cyffredinol (Rhent Cymdeithasol) | 2,061 | 76% |
| Rhent Canolraddol | 83 | 3% |
| Tai â Chymorth | 295 | 6.7% |
| Pobl Hŷn | 195 | 7% |
| Perchentyaeth Cartrefi Cost Isel | 83 | 3% |

## C3–Y gyfran, a'r nifer o gartrefi presennol (rydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli) a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i dyrannu i anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol), rhent canolraddol, rhent fforddiadwy, Tai â chymorth, tai ar gyfer pobl hŷn, perchentyaeth cartrefi cost isel, cartrefi gofal, y Sector Rhentu Preifat neu arall:

Mae'r mwyafrif o'r cartrefi a ddatblygir gennym ar gyfer rhenti cymdeithasol, fel y dangosir isod:

| Deiliadaeth/Math o Eiddo | Y nifer a gwblhawyd yn 2022/23 | % |
|---|---|---|
| Anghenion Cyffredinol (Rhent Cymdeithasol) | 16 | 80% |
| Rhent Canolraddol | 4 | 20% |
| Tai â Chymorth | - | - |
| Pobl Hŷn | - | - |
| Perchentyaeth Cartrefi Cost Isel | - | - |

# Cymdeithasol

## C4 – Sut mae Tai Gogledd Cymru yn ceisio lleihau effaith tlodi tanwydd ar eu preswylwyr?

Mae ein Swyddogion Incwm a'n Swyddogion Cyngor Ariannol ac Incwm wedi trafod effeithiau prisiau ynni uwch gyda 100% o'r preswylwyr y maent wedi cael cyswllt â hwy. Mae hyn wedi bod yn rhan o'n strategaeth ehangach o ddarparu cymorth i breswylwyr sydd â gwytnwch ariannol isel, mynd i'r afael â symptomau acíwt Tlodi Tanwydd, er enghraifft datgysylltu a pheidio gwneud defnydd digonol o systemau gwresogi.

Rydym wedi comisiynu gwasanaeth Wardeiniaid Ynni a fydd yn darparu cyngor arbenigol ar effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni i breswylwyr.

Rhan allweddol o liniaru effeithiau'r argyfwng Costau byw yw sicrhau nad yw prisiau uwch Costau byw ac unrhyw gynnydd rhent y cytunwyd arno ar gyfer 2023-24 yn cael effaith anghymesur ar wytnwch ariannol tenantiaid incwm isel sy'n hunan-dalwyr. Er enghraifft, wynebu dyled anorchfygol ar gyfer ynni, costau byw a gwariant arall hanfodol.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe awdurdododd ein Bwrdd a'n Panel Preswylwyr Gronfa Galedi a fyddai, yn wyneb costau cynyddol aelwydydd, ar gael ar unwaith i helpu ein preswylwyr sy'n wynebu argyfwng. Mae tair elfen i'r gronfa, ac un ohonynt yw preswylwyr sydd ar y pwynt argyfwng heb arian i dalu am gostau byw brys fel ynni a bwyd. Yr elfen hon sy'n derbyn y nifer uchaf o geisiadau gan ein preswylwyr.

Ers mis Ionawr 2023 rydym wedi bod yn bartner cymeradwy i'r Sefydliad Banc Tanwydd. Mae hyn yn golygu y gallwn ddarparu talebau electronig i breswylwyr ychwanegu at eu trydan a'u nwy. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd yn golygu y gallwn ddefnyddio cyllid presennol Llywodraeth Cymru i helpu ein preswylwyr, yn hytrach na dyblygu'r ddarpariaeth bresennol. Hyd yma, rydym wedi prosesu 117 o geisiadau ac mae ein preswylwyr wedi derbyn mwy na £5,000 o gymorth arian parod.

Mae ein prosiect datgarboneiddio yn darparu technolegau ynni effeithlon newydd i aelwydydd, gyda'n Wardeiniaid Ynni yn darparu cyngor ac arweiniad dilynol i breswylwyr ar sut i wneud y defnydd gorau o'u systemau gwresogi.

Mae'r tîm Incwm yn gweithio gyda'n timau Cynnal a Chadw i nodi'r preswylwyr hynny â dangosyddion nodweddiadol Tlodi Tanwydd, er enghraifft datgysylltu a lleithder a llwydni oherwydd gwresogi annigonol yn yr eiddo. Drwy ddulliau gweithredu ar y cyd ac ymdrech unedig, rydym yn gweithio'n galed i ymgysylltu â phreswylwyr sydd, am resymau lluosog, yn anodd eu cyrraedd.

Mae ein Swyddog Cyngor Ariannol ac Incwm wedi gweithio gyda'n tri rheolwr y cynllun Gofal Ychwanegol i sicrhau bod ein preswylwyr sydd ar gyflenwad ynni cymunol wedi derbyn cymorth gan y llywodraeth i liniaru'r costau ynni uchel. Roedd hyn yn golygu bod ein preswylwyr oedrannus (y mae llawer ohonynt ar incwm sefydlog) wedi derbyn tua £55,600 o gymorth arian parod.

## C5 – Pa % o gartrefi rhent sydd â chytundeb tenantiaeth am dair blynedd o leiaf?

Mae 99.6% o'n heiddo ar gyfer Unigolion ag Anghenion Cyffredinol a Phobl Hŷn yn cael eu prydlesu ar gontractau tymor hir, sy'n darparu'r lefel uchaf o ddiogelwch daliadaeth i'n preswylwyr.

Mae gennym 7 eiddo sy'n cael eu prydlesu i'r Awdurdod Lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth arbennig. Mae'r rhain yn cael eu prydlesu ar gontractau llai na 3 blynedd am lai na 0.3% o gyfanswm ein stoc.

Rydym wedi eithrio Tai â Chymorth yma pan fydd disgwyliad na fydd angen cymorth ar bobl am 3 blynedd ac felly maent yn cael eu gosod ar gontractau 12 mis.

# Cymdeithasol

## T2 - Diogelwch ac Ansawdd Adeiladau

### C6 – Pa % o gartrefi ag offer nwy sydd â gwiriad diogelwch nwy achrededig, cyfredol?

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan 100% o'n cartrefi wiriad diogelwch nwy achrededig, cyfredol mewn grym.

### C7 – Pa % o gartrefi sy'n cyflawni'r safon ansawdd tai cenedlaethol?

Ar 31 Mawrth 2023, mae 100% o'n cartrefi yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.

### C8 – Pa % o adeiladau sydd ag Asesiad Risg Tân cyfredol, sy'n cydymffurfio?

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan 100% o'n cartrefi Asesiad Risg Tân cyfredol, sy'n cydymffurfio mewn grym.

## T3 - Llais y Preswylwyr

### C9 – Pa drefniadau sydd ar waith i alluogi preswylwyr i ddwyn rheolwyr i gyfrif am ddarparu gwasanaethau?

Mae gennym broses gynhwysfawr ar gyfer rheoli cwynion gyda swyddog dynodedig sy'n monitro hyn er mwyn sicrhau bod y broses a therfynau amser yn cael eu cyflawni. Mae cwynion yn cael eu hadrodd i aelodau'r Bwrdd drwy ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Mae gennym Banel Preswylwyr gweithgar sy'n cynnwys preswylwyr ac aelodau'r bwrdd ac mae'r panel yn gyfrifol am graffu ar ein gwasanaethau a'n perfformiad i sicrhau bod yr holl breswylwyr yn derbyn y safonau uchaf posibl o wasanaeth. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'n preswylwyr ac yn eu cynnwys ar lefel strategol. Mae'r panel yn cymeradwyo'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid ac yn derbyn diweddariadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn y strategaeth.

Mae gennym fforwm Tenantiaid hefyd sy'n lleoliad llai ffurfiol i'n preswylwyr ei fynychu bob deufis. Ei nod yw darparu cyfle i gasglu gwybodaeth, dylanwadu ar benderfyniadau ac atgyfnerthu gwasanaethau. Bydd cyfarfod yn cael ei neilltuo i bwnc penodol, sy'n galluogi'r aelodau i ddysgu mwy am TGC a darparu mewnbwn ac adborth.

Yn ystod 2022/23, cyfranogodd y panel i'n Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid, yr Ymgynghoriad Fforddiadwyedd Rhent, prosiectau amrywiol gan gynnwys y System Rheoli Tai ac Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (QED).

Mae'r Grŵp Ymateb Cyntaf yn gronfa ddata o breswylwyr sy'n awyddus i weithredu fel 'darllenwr taflenni', ffurflenni a pholisïau sy'n darparu adborth gwerthfawr i ni er mwyn inni allu gweithredu arnynt cyn cyhoeddi'r dogfennau amrywiol sy'n cael eu hadolygu.

Rydym yn ceisio ymgysylltu â'n preswylwyr yn gyson drwy holiaduron ac arolygon amrywiol ac yn teilwra ein gwasanaethau lle bynnag y bo modd yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd - e.e., dangosodd canlyniadau'r ymgynghoriad rhent a thaliadau gwasanaeth wrthym nad oedd preswylwyr yn deall eu taflenni taliadau gwasanaeth a'u bod am wybod am ba wasanaethau yr oeddent yn talu amdanynt a'r hyn y dylent ei ddisgwyl fel gwasanaeth gennym ni. O ganlyniad, mae adolygiad tâl gwasanaeth yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn ystod 2023/24, ac mae'r taflenni taliadau gwasanaeth yn cael eu hailgynllunio o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth a dderbyniwyd.

# Cymdeithasol

## C10 – Sut mae Tai Gogledd Cymru yn mesur Boddhad Preswylwyr a sut mae Boddhad Preswylwyr wedi newid dros y tair blynedd diwethaf?


Rydym yn mesur boddhad preswylwyr drwy nifer o arolygon trafodaethol a chanfyddiadol. Ein harolwg sampl mwyaf yw ein harolwg STAR a gynhelir gyda phob un o'n preswylwyr Anghenion Cyffredinol, Tai â Chymorth a Phobl Hŷn. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022 i'r gofynion sampl a dull a nodwyd gan Housemark, clwb meincnodi mwyaf y sector. Cwblhawyd 810 o arolygon. Roedd y lefelau boddhad yn uwch neu'n sefydlog ar draws yr holl ddangosyddion, o gymharu â chanlyniadau'r llynedd, gyda'r gyfradd boddhad cyffredinol 5 pwynt yn uwch i 83% o breswylwyr a oedd yn hapus gyda'n gwasanaeth, a 80% a oedd yn fodlon â'r gymdogaeth lle maent yn byw, 2 bwynt yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Rydym yn cynnal dadansoddiad trafodaethol o'n Cysylltiadau Gwasanaeth Cwsmeriaid a'n Gwasanaeth Atgyweirio drwy system o'r enw Rant and Rave. Mae hyn yn galluogi ein cwsmeriaid i leisio unrhyw bryderon ac er mwyn gallu adnabod ac ymateb yn brydlon i faterion unigol a thueddiadau. Adroddir ar hyn i'r panel Preswylwyr.


Mae preswylwyr sydd wedi cael atgyweiriad wedi'i wneud, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'n hadran gwasanaethau cwsmeriaid, yn cael arolwg sy'n canolbwyntio ar foddhad cyffredinol â'r broses, yn ogystal â chwestiwn penagored i alluogi preswylwyr i rannu eu barn. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth unwaith y mis a thueddiadau'n cael eu nodi fel y gellir rhoi camau yn eu lle os oes angen.

- **Roedd y Boddhad Trafodiadol gydag Atgyweiriadau yn 93% ar gyfer 22/23**
- **Roedd y Boddhad Trafodiadol gyda Chyswllt Cwsmeriaid yn 87% ar gyfer 22/23**

**Sgôr Gwasanaeth Cwsmeriaid y flwyddyn hyd yma:**




**Sgôr Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw y flwyddyn hyd yma:**



# Cymdeithasol

Mae canlyniadau ein harolwg STAR 2022 a'r cyfeiriad strategol ar draws gwahanol feysydd boddhad wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Gwelwyd cynnydd yn y lefelau boddhad ym mhob maes ac yn ddigyfnewid yn y maes hwn. Gwelwyd gwelliannau mawr yn y boddhad cyffredinol, atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, cymryd rhan a gwneud penderfyniadau ac yn gwrando ar safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt.

| meincnod | canlyniad 2021 | newid dros amser | canlyniad 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| 82% | 78% | ↑ (gwyrdd) | 83% | Boddhad cyffredinol |
| 81% | 78% | ◁▷ | 78% | Ansawdd y cartref |
| 86% | 81% | ↑ (gwyrdd) | 85% | Diogelwch y cartref |
| 81% | 80% | ↑ (llwyd) | 82% | Gwerth am arian rhent |
| 68% | 61% | ↑ (llwyd) | 62% | Gwerth am arian o dâl gwasanaeth |
| 74% | 69% | ↑ (gwyrdd) | 74% | Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn gyffredinol |
| 67% | 65% | ↑ (gwyrdd) | 69% | Gwrando ar safbwyntiau amrywiol yn gweithredu arnynt |
| 60% | 56% | ↑ (gwyrdd) | 63% | Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau |
| 62% | 61% | ↑ (llwyd) | 62% | Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a cael llais mewn rheoli gwasanaethau |
| 78% | 71% | ↑ (gwyrdd) | 74% | Ymddiried yn Tai Gogledd Cymru |
| 82% | 78% | ↑ (llwyd) | 80% | Cymdogaeth fel lle i fyw |
| 62% | 56% | ◁▷ | 56% | Delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol |

↑ (gwyrdd) Gwelliant ystadegol sylweddol · ↑ (llwyd) ◁▷ Dim newid ystadegol sylweddol · ↓ Gostyngiad ystadegol

## C11 – Yn y 12 mis diwethaf, sawl cwyn a gynhaliwyd gan yr Ombwdsmon. Faint o'r cwynion hyn (neu eraill) sydd wedi arwain at newid arfer yn Tai Gogledd Cymru?

Ni chynhaliodd yr Ombwdsmon unrhyw gwynion Tai Gogledd Cymru yn y 12 mis diwethaf.

# Cymdeithasol

## T4 - Cymorth i Breswylwyr

### C12 – Pa wasanaethau cymorth a gynigir gan Tai Gogledd Cymru i'w preswylwyr? Pa mor llwyddiannus y mae'r gwasanaethau hyn yn gwella canlyniadau?

Mae gennym 3 prif faes gwasanaeth. Tai Pobl Hŷn (gan gynnwys Gofal Ychwanegol), Tai â Chymorth a Thai Anghenion Cyffredinol.

**Anghenion Cyffredinol:**

Yn Anghenion Cyffredinol gallwn gyfeirio at Gymorth Lle bo'r Angen gan ein tîm Tai â Chymorth ein hunain. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfryngu drwy gyfryngwyr proffesiynol ar gyfer achosion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol priodol. Gallwn hefyd ddarparu adnoddau, atgyfeirio neu ddarparu cymorth uniongyrchol ar gyfer: Cynhwysiant Ariannol; Wardeiniaid Ynni; Gwasanaeth Celcio; Actif Gogledd Cymru; a gwasanaethau eiriolaeth. Yn ogystal, rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda rhanddeiliaid i helpu i sicrhau darpariaeth gwasanaeth gydgysylltiedig gyda'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn y blaen.

Lle nodir hynny, rydym yn gwneud gwaith addasu ffisegol fel y gall ein preswylwyr fyw'n fwy diogel ac am gyfnod hwy yn eu cartrefi. Yn ystod 2022/23, fe wnaethom gyflawni 26 darn o waith o'r fath, ac roedd boddhad o 96.2%.

Mae gennym lawer o gyllidebau o fewn ein timau tai a sefydlwyd i wella ein cymunedau, cyflawni tenantiaethau, gwella'r gwaith a wneir mewn tai gwag, a darparu dodrefn trwy bartner lleol.

O ganlyniad i bob un o'r uchod, rydym yn helpu pobl i gynnal eu tenantiaethau sydd wedi cyfrannu at gyflawni trosiant preswylwyr blynyddol isel o 6%.

**Pobl Hŷn:**

Mae'r Gwasanaethau Cymorth a gynigir i breswylwyr yn y Gwasanaeth Pobl Hŷn yn helaeth ac maent yn cynnwys cyngor ar dai, hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a llesiant, larymau cymunedol, cadw'n ddiogel, budd-daliadau llesiant a chwblhau ffurflenni, ceisiadau Bathodyn Glas, cyfarpar ac addasiadau, cynhwysiant digidol; gwiriadau ar gyfer diogelu a chelcio, atgyfeiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref, Atal Cwympiadau, Cyngor Ynni, meithrin/cynnal perthnasoedd a chymorth i gynnal tenantiaethau.


Yn yr Adran Pobl Hŷn, darperir gwasanaethau cymorth tai yn ffurfiol drwy'r Rhaglen Cymorth Tai ar gyfer ein tri chynllun gofal ychwanegol. Mesurir y Canlyniadau cofnodedig ar gyfer y rhain drwy gwblhau ffurflenni bob 6 mis i'r Awdurdodau Lleol ac adrodd i Lywodraeth Cymru.


Yn y ddau gynllun arall nad ydynt yn derbyn Grant Cymorth Tai, mesurir y Canlyniadau yn anffurfiol drwy ymatebion Arolwg.

Yn ogystal, cynhelir Ymweliadau Llesiant i Denantiaid Anghenion Cyffredinol sydd dros 55 oed; mae'r rhain wedi darparu canlyniadau cadarnhaol ychwanegol i breswylwyr sy'n cael eu hadrodd i'n Panel Preswylwyr a'r Bwrdd Rheoli bob 6 mis.

Mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn gwella canlyniadau yn llwyddiannus iawn, sy'n cael ei dystio yn Arolwg STAR y sefydliad ac yn ein Harolygon Ansawdd Bywyd ein hunain.

Mae'r canlynol yn sampl o'r data a gasglwyd o'n Harolygon Ansawdd Bywyd sy'n mesur llwyddiant gwella Canlyniadau:



# Cymdeithasol

**Tai â Chymorth:**

Mae TGC yn darparu dros 360 o unedau tai â chymorth a rennir ac unedau hunangynhwysol ar gyfer pobl agored i niwed gan gynnwys y digartref, pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol, problemau iechyd meddwl, cyn-droseddwyr, pobl ag anableddau dysgu, troseddwyr ifanc a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Rydym hefyd yn darparu cymorth yn ôl yr angen i gwsmeriaid anghenion cyffredinol TGC a gwasanaethau allgymorth ac ailsefydlu i bobl sy'n cysgu allan a phobl sy'n byw mewn llety brys dros dro. Rydym yn gweithio i helpu ein partneriaid yn yr Awdurdod Lleol i atal a datrys digartrefedd ac rydym bob amser yn ceisio cyflawni canlyniadau cadarnhaol, cynaliadwy gyda'n cwsmeriaid.

Mae'r rhan fwyaf o'n llety a'n gwasanaethau cymorth wedi'u canolbwyntio yng Nghonwy a Gwynedd, ac rydym hefyd yn darparu llety â chymorth trwy amrywiaeth o asiantaethau rheoli yn Sir Ddinbych ac Ynys Môn.

Rydym hefyd yn helpu Awdurdodau Lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant, drwy ddarparu llety i 100 a mwy o bobl ag anableddau dysgu.

Rydym wedi cynorthwyo mwy na 700 o bobl yn ystod 2022-23. Roedd 68 o'r rhain yn bobl ifanc 16-21 oed, ac roedd y mwyafrif o'r rhai dros 21 oed o dan 55. Roedd 24% yn fenywod a 76% yn ddynion.

Mae ein gwasanaethau presennol yn cynnwys:

- 3 x 24/7 hostel digartrefedd â staff (a Reolir yn Uniongyrchol) 21 uned ym Mangor, 13 ym Mae Colwyn
- Hostel llety hunangynhaliol symud ymlaen (a Reolir yn Uniongyrchol) 2 uned ym Mangor, 8 uned ym Mae Colwyn
- Llefydd byw wedi'u rhannu, gyda chefnogaeth, ar gyfer pobl ifanc LGBTQ+ (Asiantaeth yn Rheoli – Llamau) 3 uned yn Sir Ddinbych
- Llefydd byw hunangynhwysol, gyda chefnogaeth, ar gyfer cyn-droseddwyr (Asiantaeth yn Rheoli – NACRO) 4 uned yng Nghonwy, 2 uned yng Ngwynedd
- Llefydd byw wedi'u rhannu, i gefnogi iechyd meddwl a llesiant (Rheolaeth Uniongyrchol) 16 uned yng Nghonwy
- Llefydd byw hunangynhwysol, gyda chefnogaeth (Rheolaeth Uniongyrchol) 30 uned yng Nghonwy, 42 uned yng Ngwynedd
- Llefydd byw wedi'u rhannu, gyda chefnogaeth, i bobl gydag anawsterau dysgu neu anhwylderau personoliaeth (Asiantaeth yn Rheoli – Gwasanaethau Cymdeithasol) 63 uned yng Nghonwy, 7 uned yn Sir Ddinbych, 7 uned yng Ngwynedd, 6 uned yn Ynys Môn
- Llefydd byw Housing First hunangynhwysol, gyda chefnogaeth, ar gyfer pobl fu gynt yn cysgu allan, 2 uned yn Ynys Môn
- Cefnogaeth Symudol – 10 uned yn cefnogi tenantiaid anghenion cyffredinol Tai Gogledd Cymru
- 2 x lloches i ferched (Asiantaeth yn Rheoli – Gorwel ac ADAS) 5 uned yng Ngwynedd a 5 uned yng Nghonwy
- Llefydd byw wedi'u rhannu, gyda chefnogaeth, ar gyfer pobl sy'n gadael gofal (Rheolaeth Uniongyrchol) 3 uned ym Mangor
- Llefydd byw hunangynhwysol, gyda chefnogaeth, i bobl sy'n adfer oddi wrth gamddefnyddio sylweddau (Asiantaeth yn Rheoli - Adferiad a'r Wallich) 6 uned yng Nghonwy, 6 uned yng Ngwynedd
- Gwasanaeth Estyn Allan ac Adsefydlu Cysgu Allan Gwynedd – wedi cefnogi 281 o bobl rhwng misoedd Ebrill a Hydref 2021

# Cymdeithasol

## Beth ddisgwylir i'r Gefnogaeth ei gyflawni

Byddwn yn cael pobl i gymryd rhan lawn yn eu cynlluniau cefnogi, ac yn darparu gweithgareddau i alluogi pobl y byddwn yn eu cefnogi i:

- gael perthnasau cadarnhaol ac iach gyda phobl yn eu bywydau
- teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau
- cael annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau arferol o ddydd i ddydd.
- cymryd rhan mewn rhywbeth sy'n ystyrlon iddynt hwy
- mewn iechyd corfforol da
- rheoli effaith unrhyw ddibyniaeth ar sylweddau
- bod ganddynt iechyd meddwl a llesiant da

## Cyngor ar Arian a gwasanaethau Cynhwysiant Ariannol:

Mae pob un o'n swyddogion incwm wedi'u hyfforddi i roi cyngor ariannol i'n preswylwyr. Rydym hefyd wedi ehangu'r tîm i gynnwys dau Swyddog Cyngor Ariannol ac Incwm arbenigol fydd yn delio gydag achosion mwy cymhleth ac yn rheoli ein Cronfa Caledi.

Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bobl gyda phob math o ddaliadaeth, ac yn aml byddant yn cynorthwyo rhai o'n preswylwyr sydd mewn mwyaf o angen. Bydd gwaith y tîm yn cael ei lywio gan ein Strategaeth Wrthdlodi a Chynhwysiant Ariannol 2023-26, gafodd ei chymeradwyo yn ystod y flwyddyn. Dyma ganlyniadau'r gwasanaeth hwn am 2022/23:

- **100 o breswylwyr yn cael cyngor ffurfiol ar arian a gwasanaethau cynhwysiant ariannol**
- **cynorthwyo 47 o aelwydydd i hawlio £25,000 o Fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol oedd heb eu hawlio**
- **cael £2,100 ar ffurf Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai**
- **cynorthwyo 56 o aelwydydd i gael Tariff Terfyn Bil Cymdeithasol Watersure Cymru (neu Water Assist)**
- **cael £5,000 o gymorth oddi wrth y Sefydliad Banc Tanwydd**
- **mae aelwydydd gafodd Gyngor Ariannol oddi wrth y Tîm Incwm wedi cael dros £600k o Enillion Ariannol**

# Cymdeithasol

## T5 - Creu Lleoedd

### C13 – Rhowch enghreifftiau neu astudiaethau achos lle bu Tai Gogledd Cymru'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creu lleoedd neu lunio lleoedd.

Bydd pob un o'n cynlluniau adeiladu o'r newydd yn mynd trwy drefn Craffu Technegol Llywodraeth Cymru, lle mae llawer o bwyslais ar greu lleoedd. Oherwydd hynny, bydd pob un o'n cynlluniau wedi'i ddylunio i ystyried pobl, y gymuned, symudiadau, hunaniaeth a'r tir sy'n eiddo i'r cyhoedd.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond gwaith cyfyngedig allwn ei wneud ar yr agwedd hon o ran y cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n barod.

Er hynny rydym newydd lansio ein fersiwn cyntaf o'n Cynlluniau Cymdogaeth, sy'n ceisio teilwra'r gwasanaethau a ddarperir i ffitio pob un o'r Cymdogaethau sydd wedi'u henwi gennym. Mae hyn wedi cynnwys coladu ein gwybodaeth o asedau sefydlog ac asedau cymunedol ar gyfer pob Cymdogaeth.

Rydym wedi datblygu gardd gymunedol ar un o'n stadau yn Llandudno gyda ardaloedd blodau gwyllt, meinciau ac offer chwarae. Cafodd hyn ei gyllido gan un o'n contractwyr fel rhan o'u hymrwymiad tuag at werth cymdeithasol trwy gyd-weithio gyda'n tim mewnol cynnal tiroedd.







# Amgylcheddol

## T6 – Newid Hinsawdd

### C14 – Dosbarthiad statws Tystysgrif Perfformiad Ynni cartrefi sy'n bodoli'n barod (wedi'u cwblhau cyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf).

Ar gyfer 31 Mawrth, 2023:

| Statws Tystysgrif Perfformiad Ynni | Nifer | % |
|---|---|---|
| A | 16 | 1% |
| B | 372 | 15% |
| C | 1716 | 69% |
| D | 350 | 14% |
| E | 23 | 1% |
| F-G | 0 | 0% |

### C15 – Dosbarthiad Statws Tystysgrif Perfformiad Ynni mewn cartrefi newydd (wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf).

Cwblhawyd 20 uned yn ystod 2022/23, a dyma'u statws Tystysgrif Perfformiad Ynni:

| Statws Tystysgrif Perfformiad Ynni | Nifer | % |
|---|---|---|
| A | 16 | 80% |
| B | 4 | 20% |

# Amgylcheddol

### C16 – Adrodd am allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1, Cwmpas 2 a Chwmpas 3.

Cafodd ôl troed carbon Tai Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ei gyfrifo i fod yn 6,118 $tCO_2e$. Fe wnaethom gwblhau Cwmpas 1 a 2 ôl troed carbon.

Roedd yr allyriadau Cwmpas 1 (llosgi tanwydd ffosil yn uniongyrchol) yn gyfrifol am 62% o'r ôl troed cyfan, ac allyriadau Cwmpas 2 (prynu trydan) yn gyfrifol am y 38% sy'n weddill. Roedd 94.1% o'r allyriadau hyn yn deillio o'n stoc tai. Rydym yn parhau i weithio i wella ôl troed ein heiddo ni.

Rydym wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i symud ymlaen gyda'n strategaeth ddatgarboneiddio. Byddwn yn datblygu hyn ymhellach yn 2023/24 i gynnwys camau i leihau ein hallyriadau, cefnogi preswylwyr, mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o weithredu, a symud tuag at ddyfodol sydd wedi'i ddatgarboneiddio – gyda hynny'n cynnwys ystyried allyriadau Cwmpas 3.

### C17 – Pa gamau effeithlonrwydd ynni a gymerwyd gan Dai Gogledd Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf?

Rydym  wedi llwyddo i gael arian grant o'r Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio sydd gan Lywodraeth Cymru, i wneud gwaith Datgarboneiddio yn ystod 2022/23. Fe wnaethom hefyd ariannu gwaith pellach ar wahân. Cafodd gwaith Datgarboneiddio ei wneud ar gyfanswm o 97 eiddo oedd â'r perfformiad ynni a charbon isaf. Roedd y gwaith yn amrywio o osod deunydd ynysu mewnol/allanol ar waliau, ynysu llofftydd a thoeau, pympiau gwres, gwresogyddion storio i gadw gwres a Phaneli Haul.

Ers dechrau ar y gwaith yn 2020, rydym wedi gwneud gwaith Datgarboneiddio ar gyfanswm o 359 o'n cartrefi. Rydym ar y safle mewn 17 cartref pellach, ac yn bwriadu gweithio ar 147 o gartrefi eraill yn ystod 2023/24.

### C18 – Sut mae Tai Gogledd Cymru'n lliniaru'r risgiau newid hinsawdd a ganlyn: cynnydd mewn risg llifogydd a chynnydd mewn risg o dai'n mynd yn rhy boeth.

Mae angen gwaith pellach i asesu'r risg hinsawdd i'n stoc bresennol.

Fodd bynnag, gyda datblygiadau newydd, byddwn yn gwneud asesiad o'r risg llifogydd wrth weithredu'r diwydrwydd dyladwy technegol. Byddwn yn defnyddio mapiau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r broses ddatblygu, gyda'r rheiny'n dangos categori'r safle i ni a phennu a all y datblygiad fynd yn ei flaen.

Byddwn hefyd yn gwneud asesiad risg llifogydd llawn fel rhan o'r broses gynllunio, i ddangos pa fesurau lliniaru sydd eu hangen i'r cynllun.

Cafodd y Rheoliadau Adeiladu eu diweddaru yn 2022 i sicrhau hefyd bod tenantiaid yn cael eu gwarchod rhag i'w cartrefi fynd yn rhy boeth, a bydd hynny'n cael sylw ar yr adeg byddant yn symud i mewn i'n datblygiadau newydd.

### C19 – A yw Tai Gogledd Cymru'n rhoi gwybodaeth i breswylwyr am awyru, gwresogi, ailgylchu cywir ayyb? Disgrifiwch sut gwneir hyn.

Rydym yn ddiweddar wedi adolygu ein gweithdrefnau ar gyfer lleithder a llwydni. Os bydd rywun yn adrodd am bryderon am leithder a llwydni, wedyn bydd syrfëwr cymwys yn asesu'r eiddo i weld beth sy'n eu hachosi, a beth yw'r atebion iddynt.

Bydd y syrfëwr yn rhoi cyngor i bobl, yn ogystal â thaflen gynghori gyffredinol. Ar ôl 3 mis, bydd Swyddog Cymdogaeth yn ceisio ymweld i holi sut mae pethau'n dod ymlaen, a rhoi cyngor os bydd angen.

# Amgylcheddol

## T7 – Ecoleg

### C20 – Sut mae Tai Gogledd Cymru'n cynyddu Mannau Gwyrdd ac yn hyrwyddo Bioamrywiaeth ar neu'n agos at gartrefi?

Mae Tai Gogledd Cymru'n gweithredu i wella bioamrywiaeth yn ein cynlluniau.

Byddwn yn cydweithio gyda chyrff fel PlantLife a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, sydd wedi darparu gwybodaeth arbenigol ac adnoddau gwerthfawr i gynorthwyo i ariannu ein cynlluniau i greu:



- Perllan ffrwythau
- Mannau blodau gwyllt ar 4 o'n cynlluniau
- Byrddau gwybodaeth
- Blychau i wenyn a phryfed eraill
- Blychau Adar



Rydym yn bwriadu gosod camera natur ar dir un o'n cynlluniau pobl hŷn. Wedyn bydd tenantiaid yn gallu gweld natur yn agos atynt a hefyd deall pwysigrwydd bioamrywiaeth a'i rôl yn cefnogi bywyd gwyllt, trwy weld pa gynefinoedd sydd wedi'u creu ar gyfer adar, pryfed a draenogod yn y gweirgloddiau bywyd gwyllt.

Mae ein tîm mewnol cynnal tiroedd wedi bod i gynadleddau a gweithdai yn arbenigo mewn bioamrywiaeth, er mwyn gwella mwy ar eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Yn y rheiny, cafodd y tîm ddealltwriaeth bwysig o wahanol agweddau o reoli cynefinoedd, adnabod planhigion cynhenid, creu cynefinoedd bywyd gwyllt ac arferion cynaliadwy mewn gwaith tirlunio. Roedd y digwyddiadau hyn hefyd yn gyfleoedd i rwydweithio gydag arbenigwyr lleol, ecolegwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes bioamrywiaeth, er mwyn i ni gael datblygu hyn ymhellach.

### C21 – A oes gan Dai Gogledd Cymru strategaeth i reoli'n bendant a lleihau'r holl ddeunyddiau sy'n llygru? Os oes, sut mae Tai Gogledd Cymru'n targedu ac yn mesur perfformiad?

Ar hyn o bryd nid oes gennym gynlluniau uniongyrchol i atal defnyddio chwynladdwyr wedi'u selio ar glyphosate. Er hynny, rydym yn cydnabod pwysigrwydd eu defnyddio cyn lleied ag y bo modd, ac rydym yn gweithredu ar ffyrdd i leihau'r defnydd ohonynt ar ein cynlluniau tai. Fel hyn, rydym yn ceisio cael cydbwysedd rhwng rheoli chwyn yn effeithiol a'n hymrwymiad i fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Rydym wedi darllen adroddiad prosiect Cyngor Caerdydd, oedd yn edrych ar dair gwahanol ffordd o ladd chwyn, yn cynnwys defnyddio sylweddau yn cynnwys glyphosate. Canlyniad yr adroddiad oedd mai glyphosate oedd y dewis mwyaf effeithlon a chost-effeithiol, o'i gymharu â'r ffyrdd eraill yr edrychwyd arnynt.

Rydym yn parhau i ddefnyddio chwynladdwyr wedi'u seilio ar glyphosate ond yn chwilio'n bendant am ffyrdd eraill o reoli chwyn. Mae hynny'n cynnwys edrych ar fathau eraill, ecogaredig o chwynladdwyr, a dulliau o'u rheoli yn fecanyddol neu trwy waith llaw.

# Amgylcheddol

## T8 – Rheoli Adnoddau

### C22 – A oes gan Dai Gogledd Cymru strategaeth i ddefnyddio neu gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau o ffynonellau cyfrifol ar gyfer ei holl waith adeiladau? Os oes, sut mae Tai Gogledd Cymru'n targedu a mesur perfformiad?

Does gan Dai Gogledd Cymru ddim strategaeth yn ei lle ar hyn o bryd, ond mae pwyslais ar gael deunyddiau o ffynonellau lleol. Mae ein Strategaeth Twf yn cynnwys defnyddio Dulliau Adeiladu Modern a thechnegau o adeiladu rhannau parod o adeiladau oddi ar y safle, er mwyn cyflymu gwaith adeiladu, fydd yn ei dro'n annog defnyddio deunyddiau adeiladu mwy cynaliadwy.

I'r dyfodol, rydym yn bwriadu gwella ein gwaith yn y maes hwn, pennu targedau penodol a mesur ein perfformiad ar gyfer gwaith adeiladu Datblygu a'r gwaith Cynnal sy'n digwydd i'n heiddo.

### C23 – A oes gan Dai Gogledd Cymru strategaeth ar gyfer rheoli gwastraff, yn cynnwys deunyddiau adeiladu? Os oes, sut mae Tai Gogledd Cymru'n targedu a mesur perfformiad?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym strategaeth ar gyfer rheoli gwastraff. Yn nhermau datblygiadau, yr adeiladwr sydd yn gyfrifol am y gwastraff sydd yn deillio o adeiladu eiddo newydd.

Mae hyn yn cael ei gynnwys yn y cytundebau. Mi wnawn ystyried datblygu strategaeth ar gyfer rheoli gwastraff.

### C24 – A oes gan Dai Gogledd Cymru strategaeth ar gyfer rheolaeth dda ar ddŵr? Os oes, sut mae'r darparydd tai'n targedu a mesur perfformiad?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym strategaeth ar gyfer rheolaeth dda ar ddwr. Mi wnawn ystyried datblygu un maes o law.

# Llywodraethiant

## T9 – Strwythur a Llywodraethiant

### C25 – A yw Tai Gogledd Cymru wedi cofrestru gyda'r rheoleiddiwr tai cymdeithasol cenedlaethol?

Mae Tai Gogledd Cymru wedi cofrestru gyda, ac yn cael ei rheoleiddio gan, Lywodraeth Cymru.

Ein rhif cofrestru yw 18922R.

### C26 – Beth yw'r raddfa/statws rheoleiddio diweddaraf?

Roedd y canlyniad rheoleiddio diweddaraf oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn Ionawr 2023 ar gyfer 2012/2022, yn cadarnhau ein statws fel 'cydymffurfio'. Roedd hynny ar gyfer Llywodraethiant (yn cynnwys darparu gwasanaethau) a Hyfywdra Ariannol. Hwn yw'r statws uchaf y gellir ei gyrraedd.

### C27 - Pa God Llywodraethiant mae Tai Gogledd Cymru'n ei ddilyn, os o gwbl?

Mae Tai Gogledd Cymru wedi mabwysiadu Cod Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru.

### C28 – A yw Tai Gogledd Cymru'n Ddim er Elw? Os hynny, pwy yw'r cyfranddaliwr mwyaf, pa % o berchnogaeth economaidd sydd ganddynt a pha % o'r hawliau pleidleisio maent yn ei reoli?

Fe sefydlwyd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru yn 1974 ac mae'n elusen gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac yn gorff Dielw.

### C29 – Eglurwch sut mae bwrdd Tai Gogledd Cymru'n rheoli risgiau cyfundrefnol.

Mae gan Dai Gogledd Cymru Fframwaith Sicrhau Risg sy'n estyn dros bopeth arall, a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu, Cofrestr Risgiau fanwl a chynhwysfawr, a Datganiad Archwaeth am Risg ar lefel uchel.

Mae'r Strategaeth yn disgrifio'r ffordd wedi'i safoni sydd gan Dai Gogledd Cymru o reoli risg.

Bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, er mwyn cael sicrwydd bod y trefniadau rheoli'n parhau'n effeithiol, y cyflawnir camau ar amser, bod ymatebion yn effeithiol, ac i allu canfod pa fo angen gweithredu pellach.

Mae'r Archwaeth am Risg yn mynegi beth yw awydd y Bwrdd i ymdopi gyda risg mewn gwahanol rannau o'r busnes. Bydd yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau corfforaethol a'r amgylcheddau gweithredu cyfredol.

Gwelwyd y categorïau a ganlyn o risg, ar sail Cynllun Corfforaethol Tai Gogledd Cymru a'n prosesau gweithredol:

Cwsmeriaid
Cydweithwyr
Adnoddau
Twf
Llywodraethiant a Deddfwriaeth

Mae gwaith rheoli risg Tai Gogledd Cymru wedi'i seilio ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Y bwrdd sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am reoli risg a gosod/gweithredu'r archwaeth am risg
- Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd bod y trefniadau rheoli risg yn cael eu hadolygu'n ddigonol ac yn systematig ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Tîm Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio a gweithredu'r strategaeth hon.
- Mae rheoli risg o ddydd i ddydd yn fater sy'n cynnwys holl aelodau'r Bwrdd a'r staff.

Bydd ffordd y sefydliad o weithredu tuag at Reoli Risg hefyd yn cael ei hadrodd fel rhan o'r gwaith adrodd blynyddol ar y cyfrifon.

# Llywodraethiant

### C30 – A fu unrhyw ganfyddiadau rheolaethol negyddol i Tai Gogledd Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf (methiant i ddiogelu data, llwgrwobrwyo, gwyngalchu arian, methiant o ran yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ayyb) – yn arwain at orfodi neu gamau cyfatebol?

Ni fu unrhyw ganfyddiadau rheoleiddiol negyddol yn erbyn Tai Gogledd Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf.

## T10 – Bwrdd ac Ymddiriedolwyr

### C31 – Beth yw demograffeg y bwrdd? A sut mae hynny'n cymharu gyda demograffeg preswylwyr Tai Gogledd Cymru?

Mae gan y Bwrdd saith o aelodau ar hyn o bryd, a phob un yn gyfarwyddwr anweithredol. Dyma sut roedd Bwrdd Tai Gogledd Cymru wedi'i gyfansoddi ym mis Hydref 2022:



- 57% Merched; 43% dynion
- 14% gydag anabledd
- 0% o aelodau'r Bwrdd yn Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol
- Cyfartaledd oed aelodau'r Bwrdd yw 56
- Cyfartaledd hyd gwasanaeth aelodau ein Bwrdd yw 5 mlynedd

Dyma ein tenantiaid, fel cymhariaeth:


- 47.14 merched; 52.84% dynion
- 15% wedi adrodd bod ganddynt anabledd. Fodd bynnag, nodwch os gwelwch yn dda nad ydym yn dal y data hwn ar gyfer 50% o'n sail o breswylwyr, neu roedd yn well ganddynt beidio rhannu'r wybodaeth hon gyda ni.
- Mae 0.81% yn Ddu, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.  Nid ydym yn dal y data hwn ar gyfer 33.5% o'n preswylwyr, neu roedd yn well ganddynt beidio rhannu'r wybodaeth hon gyda ni.

Mae cynyddu amrywiaeth y Bwrdd yn flaenoriaeth i Tai Gogledd Cymru, ac mae gennym ymrwymiad i sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n gweithio ynddynt.

### C32 – Pa  % o'r bwrdd A HEFYD  y tîm rheoli sydd wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

- 25% o newid yn y Bwrdd yn y ddwy flynedd ddiwethaf
- 25% o newid yn y Tîm Rheoli yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Trosiant y Rheolwyr a'r Bwrdd dros y ddwy flynedd ddiwethaf**



# Llywodraethiant

## C33 – A oes uchafswm amser gwasanaeth i aelodau'r bwrdd? Os oes, faint yw hynny?

Gall aelod o'r Bwrdd wasanaethau am hyd at 9 mlynedd.

Mae hynny'n dri thymor o dair blynedd.

## C34 – Pa % o'r bwrdd sy'n gyfarwyddwyr anweithredol?

Mae 100% o'r Bwrdd yn gyfarwyddwyr anweithredol.

## C35 – Nifer aelodau'r bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio sydd â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol

Mae un aelod o'r Bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio a Risg a chanddynt brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor ymuno â'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2018. Mae ef ar hyn o bryd yn Bennaeth Cyfrifo Cyllidol ym Mhrifysgol Bangor ac mae ganddo amrediad eang o sgiliau cyfrifo ariannol a rheolaethol.

Mae ganddo hefyd brofiad helaeth o reolaeth archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â phrofiad ymarferol o gydymffurfio gyda systemau rheolaethol a llywodraethol, gan iddo weithio'n gynharach gyda Pricewaterhouse Coopers a Waterford Wedgwood a hyfforddi gyda'r Archwilydd Dosbarth yng Ngogledd Cymru. Mae ganddo radd mewn Cyllid a Chyfrifo Ewropeaidd ac mae'n aelod o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

## C36 – A oes unrhyw weithredwyr cyfredol ar y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth?

Mae gan Dai Gogledd Cymru Bwyllgor Llywodraethiant, ac mae tâl cydnabyddiaeth wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor hwn.

Mae 100% o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant yn gyfarwyddwyr anweithredol.

## C37 – A gafodd cynllun olyniaeth ei ddarparu i'r bwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf?

Cafodd Polisi Recriwtio, Dewis ac Olyniaeth y Bwrdd ei adolygu'n ddiweddar gan y Pwyllgor Llywodraethiant.

Bydd Cynllun Olyniaeth, ar sail deiliadaeth aelodau'r Bwrdd, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd bob blwyddyn ym mis Gorffennaf.

## C38 – Am sawl blwyddyn mae partner archwilio allanol Tai Gogledd Cymru wedi bod yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon?

Cafodd ein harchwilwyr allanol eu penodi am 5 mlynedd, gyda'r dewis o estyn am 2 flynedd bellach yn dilyn gwaith tendro ym mis Hydref 2020.

Felly ar 31 Mawrth 2023 maen nhw wedi bod yn ddarparydd archwilio allanol i ni am ddwy flynedd a hanner.

## C39 – Pa bryd digwyddodd yr adolygiad diwethaf, wedi'i redeg yn annibynnol, o effeithiolrwydd y bwrdd?

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol llawn o lywodraethiant gan Campbell Tickell yn ystod gwanwyn a haf 2022, ac ar y diwedd fe gyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad i'r Bwrdd ym mis Hydref 2022.

## C40 – A yw rolau cadeirydd y bwrdd a'r prif swyddog gweithredol yn cael eu dal gan ddau unigolyn gwahanol?

Ydyn.

## C41 – Sut bydd Tai Gogledd Cymru'n trin gwrthdaro mewn buddiannau ar y bwrdd?

Mae gan y Bwrdd gofrestr o Wrthdaro Buddiannau. Bydd gan bob cyfarfod o'r bwrdd eitem safonol ar gyfer datgan diddordeb, gyda'r Cadeirydd yn galw am hynny.

Ar yr achlysuron prin pan fydd diddordeb yn cael ei ddatgan, bydd yr aelod dan sylw o'r Bwrdd yn ymneilltuo eu hunain oddi wrth y drafodaeth, penderfyniad neu unrhyw bleidlais ar y mater.

# Llywodraethiant

## T11 – Llesiant Staff

### C42 – A yw Tai Gogledd Cymru'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol?

Mae'r sefydliad hwn yn talu'r cyflog Byw Gwirioneddol neu fwy i'w holl staff heblaw am Brentisiaid (sy'n cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer eu hoed).

### C43 – Beth yw'r bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau?

Dyma'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Nhai Gogledd Cymru ar 31ain Mawrth 2023:

canolrif **-2.37%** a cymedrig **-12.42%**

### C44 – Beth yw'r gymhareb rhwng cyflog Prif Swyddog Gweithredol a chanolrif cyflog gweithwyr?

Ar gyfer 2022/23 roedd cymhareb Tai Gogledd Cymru rhwng cyflog y Prif Swyddog Gweithredol a chanolrif cyflog gweithwyr yn 4.65.

### C45 – Sut mae Tai Gogledd Cymru'n cefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl ei staff?

Mae Tai Gogledd Cymru wedi enwi ei rhaglen Iechyd a Llesiant yn CALON. Bydd y rhaglen CALON flynyddol yn rhoi manylion o'r gwaith hyrwyddo iechyd a chynlluniau y bydd pencampwyr brwdfrydig CALON yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn.

Bydd CALON yn gweithredu i rannu a hyrwyddo gwybodaeth ac adnoddau ac i ddangos lle i gael gwasanaethau, o ran y 5 llwybr tuag at lesiant, trwy ddefnyddio'r Rhyngrwyd Staff a sianelau cyfathrebu Workplace a Teams. Yn 2020 fe ymrwymodd Tai Gogledd Cymru i'r Addewid Amser i Newid Cymru. Mae hwnnw'n addewid y gwnawn gymaint ag y gallwn i gael gwared â stigma a gwahaniaethu ar iechyd meddwl yn y gweithle. Mae ein Partner Pobl yn hyfforddwr achredig gydag i-act ac wedi darparu hyfforddiant i-act ar Reoli a Hyrwyddo Iechyd Meddwl a Llesiant Cadarnhaol yn y gweithle i'n holl Arweinyddion. Rydym yn gobeithio y bydd yr holl weithwyr rheng flaen yn cael hyfforddiant mewn Deall a Hyrwyddo Iechyd Meddwl a Llesiant Cadarnhaol yn y gweithle erbyn diwedd 2023.

Bydd Calendrau Gweithredu ar Gyfer Hapusrwydd yn cael eu rhannu bob mis trwy Workplace/Ebost. Bydd cyflogeion yn cael eu hannog i ddewis pethau i'w gwneud bob dydd sydd o gymorth i wella eu hiechyd corfforol ac iechyd meddwl. Bydd postiadau yn y gweithle ar themâu yn digwydd gydol y mis.

Bydd CALON yn darparu dalen newyddion yn rheolaidd i roi crynodeb o bopeth gafodd ei rannu, atgoffa cyflogeion o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt a sut i gael y gefnogaeth honno.

Hefyd, bydd CALON yn rhannu calendrau wythnosol Rhaglen Cymorth i Weithwyr CARE First sy'n caniatáu i staff gael mynediad at weminarau a chanllawiau ar themâu penodol a dyddiau ymwybyddiaeth ar Iechyd a Llesiant. Mae'r Rhaglen hefyd yn darparu cwnsela a chymorth cyfrinachol 24/7 i gydweithwyr, yn cynnwys mynediad cyflym at gefnogaeth ar gyfer digwyddiadau tyngedfennol. Mae gennym Gynllun Arian Parod Safon Aur i'n holl staff contract fel eu bod yn gallu hawlio arian yn ôl ar gyfer gofal iechyd arferol beunyddiol a chael mynediad cyflym at sganio ac apwyntiadau meddyg teulu/ymgynghorydd iechyd.

Mae CALON wedi trefnu sesiynau ar feddylgarwch, adeiladu arferion, adweitheg ac yoga, a daeth trawstoriad o gyflogeion i'r rheiny. Mae'r cynlluniau llesiant eraill yn cynnwys addurno pwmpenni a chystadleuaeth ar gyfer yr addurniadau coeden Nadolig / lleoliad gwaith gorau. Bydd Tai Gogledd Cymru hefyd yn darparu te, coffi a ffrwythau yn ddi-dâl ym mhob swyddfa a chynllun.

Mae Iechyd a Llesiant wedi'i gynnwys ym mhob rhaglen gyflwyno i staff newydd ac yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd un i un. Bydd Cynlluniau Gweithredu Llesiant yn cael eu hannog ar gyfer pryderon corfforol a meddyliol ac yn cael eu cynnwys yn ein proses i gefnogi presenoldeb yn y gweithle.

Bydd sgrinio iechyd yn digwydd yn rheolaidd ar gyfer ein gweithwyr Nos a gweithwyr Crefft, trwy gyfrwng Iechyd Galwedigaethol, ac mae gennym gysylltiadau da gydag Able Futures, Mynediad i Waith ac RCS Cymru. Trwy hynny, gall cyflogeion gyfeirio eu hunain ar gyfer unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'u hiechyd corfforol neu iechyd meddwl.

# Llywodraethiant

Rydym yn cymryd llesiant corfforol a meddyliol ein pobl o ddifri, ac wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i wella'r maes hwn.  Ym mhopeth fyddwn yn ei wneud, mae lle blaenllaw i wneud Tai Gogledd Cymru'n lle gwych i weithio.

Fe arweiniodd hyn yn y pen draw at ein bod yn ennill graddfa dwy seren o dan gynllun achredu o'r Cwmnïau Gorau i weithio iddynt, ym Mawrth 2023. Rydym yn hynod falch o gyflawni hyn, gyda chynnydd anferth o 62.2 pwynt yn ein sgôr ni.

Rydym ymysg y 5 cymdeithas tai uchaf yn y Deyrnas Unedig yn hyn. Cafodd ei gyflawni trwy fod 84% o'n pobl yn cymryd rhan, sy'n ei wneud hyd yn oed yn fwy arbennig.

### C46 – Beth yw cyfartaledd nifer y dyddiau salwch (tymor hir a thymor byr) gymerwyd gan bob gweithiwr cyflogedig?

- 8.9% (absenoldebau tymor byr a thymor hir).

## T12 – Cadwyn Gyflenwi

### C47 – Sut mae creu Gwerth Cymdeithasol yn cael ei ystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau?

Rydym wedi datblygu strategaeth Caffael sydd ar waith ar hyn o bryd. Un o amcanion y strategaeth yw:

- Gwella buddion cymunedol drwy gaffael.

**Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:**

- Sicrhau'r gwerth gorau tra'n cefnogi cymunedau lleol. Mae Buddion Cymunedol yn hyrwyddo cyfleoedd ychwanegol o fewn contractau caffael sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol a diriaethol sy'n gwella cymunedau.
- Darparu gwasanaethau rhagorol i'n preswylwyr, gan wella eu boddhad â ni fel darparwr tai o safon.
- Sicrhau elw cymdeithasol ar fuddsoddiad drwy fanteision cymdeithasol eang gan gynnwys cyfleoedd BBaCh hygyrch i gyflenwyr lleol, cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant i bobl leol, cefnogaeth i fentrau cymunedol a llawer mwy.

Mae'n faes lle rydym yn cydnabod ein bod yn datblygu. Disgwylir y bydd hyn yn gwella unwaith y bydd y strategaeth yn cael ei chymeradwyo a'i hymgorffori yn ein harferion.

# Llywodraethiant

## C48 – Sut mae effaith amgylcheddol yn cael ei hystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau?

Rydym wedi datblygu strategaeth Caffael sydd ar waith ar hyn o bryd. Un o amcanion y strategaeth yw:

- Cyflawni Caffael Cynaliad

**Bydd hyn yn cael ei wneud trwy:**

- Sicrhau bod caffael sy'n cefnogi gwerth am arian ar sail oes, o ran cynhyrchu buddion i gymdeithas a'r economi a lleihau'r difrod i'r amgylchedd.
- Sicrhau bod disgwyl i aelodau staff TGC geisio sicrhau caffael cynaliadwy beth bynnag yw gwerth y contract.
- Cefnogi'r economi sylfaenol.
- Ystyried yr amgylchedd, effeithiau economaidd a chymdeithasol y broses, defnyddio deunyddiau adnewyddadwy, dulliau cynhyrchu, trosglwyddo gwasanaethau ac opsiynau i ailgylchu i enwi dim ond ychydig o ystyriaethau.